## Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

## Bwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru
## Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig
## Yngh: SEWSCB 1/2021

## Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

### Y Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd adolygiad estynedig gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiadau Achos ar y Cyd, yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol. Roedd hyn yn unol â 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2, Adolygiadau Ymarfer Plant, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn dilyn marwolaeth plentyn 15 oed a fydd yn cael ei adnabod wedi hyn fel plentyn D.

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant estynedig mewn unrhyw un o'r achosion a ganlyn, o fewn ardal y Bwrdd, lle gwyddys neu lle amheuir bod plentyn wedi'i gam-drin neu ei esgeuluso a bod y plentyn wedi:

- marw; neu
- wedi dioddef anaf a allai beryglu bywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol parhaus i iechyd neu ddatblygiad; **a**

bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu roedd yn blentyn sy'n derbyn gofal (gan gynnwys person sydd wedi troi'n 18 oed ond a oedd yn blentyn sy'n derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol –

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

### Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried amgylchiadau plentyn gwrywaidd a fu farw yn anffodus yn 15 oed a 7 mis oed.

Ganed Plentyn D ym mis Ionawr 2006. Cafodd ei eni ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd, yn pwyso 0.855kg, sy'n cael ei ystyried yn gynamserol iawn a chafodd siawns o 60% o oroesi gyda risg uwch o anabledd. Ar ôl genedigaeth, treuliodd gyfanswm o 19 wythnos fel claf mewnol mewn Uned Newyddenedigol. Yn ystod y cyfnod hwn, dioddefodd plentyn D ataliad ar y galon a sawl gwaedlif dwyochrog ar yr ymennydd. Roedd mam plentyn D yn 16 oed ar adeg ei eni.

Yn dilyn ei eni, cafodd plentyn D ddiagnosis o barlys yr ymennydd ac roedd ganddo anghenion yn gysylltiedig â'r diagnosis. Daeth Plentyn D yn hysbys i Dîm Anabledd y Gwasanaethau Plant am y tro cyntaf pan oedd yn 1 oed ar gyfer cymorth Therapydd Galwedigaethol (OT) oherwydd ei anghenion cymhleth. Drwy gydol yr amser y bu'r Gwasanaethau Plant yn ymwneud â phlentyn D a'i deulu, buont yn rhan o'r Tîm Anabledd o fewn Strwythur yr Awdurdod Lleol.

Roedd Plentyn D yn byw gyda'i rieni biolegol; fodd bynnag, ym mis Medi 2007 nodwyd dirywiad yng nghyflwr ac amodau'r cartref, ac o'r pwynt hwn ymlaen, daeth Gweithiwr Cymdeithasol yn gysylltiedig â'r plentyn, yn ychwanegol at ei gymorth therapi galwedigaethol. O'r cyfnod hwn hyd at Chwefror 2008, nodwyd hefyd nad oedd ei rieni'n dilyn cyngor meddygol ynghylch gofal plentyn D ac roedd amodau gwael yn y cartref yn parhau'n bryder. Ym mis Chwefror 2008, dywedodd ei fam naturiol na allai ddiwallu anghenion plentyn D mwyach ac ar ôl ymchwiliad adran 47, cafodd plentyn D ei leoli gyda'i Nain a'i Daid ar ochr ei fam a daeth yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal (CLA). Yn dilyn y digwyddiad hwn, rhoddwyd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i'w Nain a'i Daid ar ochr ei fam ym mis Rhagfyr 2008 ar gyfer plentyn D. Yn fuan ar ôl hyn, symudodd mam plentyn D, a mynd i fyw y tu allan i'r ardal. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan fam plentyn D ddau o blant eraill a oedd yn byw gyda hi y tu allan i'r ardal.

O fis Medi 2015, amlygwyd cyflwr anniben a gwael y cartref fel pryder gan y Therapydd Galwedigaethol. Ym mis Mehefin 2016, aseswyd plentyn D ar gyfer gofal seibiant dros nos, a ganiatawyd. Ar yr adeg hon, daeth y problemau gyda chyflwr y cartref yn fwy amlwg. Mae hyn yn rhagflaenu ei fam a'i siblingiaid yn dychwelyd i fyw yn y cartref.

Ym mis Gorffennaf 2016, dychwelodd ei fam a dau sibling yn ôl i'r ardal a byw yn eiddo'r nain a'r taid gyda phlentyn D. Tra'n byw y tu allan i'r ardal, bu'r Gwasanaethau Plant yn ymwneud â'r siblingiaid oherwydd amodau cartref gwael a rhianta anghyson ac esgeulus. Ar yr adeg hon, gwrthododd y nain a'r taid dderbyn cytundeb na fyddai ei fam yn gofalu am blentyn D. Fodd bynnag, roeddent yn derbyn pryderon ynghylch iechyd meddwl ei fam. Yn ystod y cyfnod hwn, prin yw'r wybodaeth am y siblingiaid ac roedd y ffocws ar blentyn D oherwydd yr anghenion a'r gofynion ychwanegol a oedd ganddo oherwydd ei gyflyrau iechyd.

Ym mis Mehefin 2016, rhoddwyd enw plentyn D ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o dan y categori esgeulustod, ynghyd â'i siblingiaid. Yna cafodd ei enw ei dynnu oddi ar y gofrestr ym mis Tachwedd 2016 oherwydd bod amodau'r cartref yn dderbyniol. Ar y pwynt hwn, roedd ei Nain a'i Daid yn cydnabod bod mam plentyn D weithiau'n cael trafferth gofalu amdano a chytunwyd y byddent yn cefnogi ei gilydd, ac roeddent yn ymddiried yn llwyr ynddi. Ar yr adeg hon, roedd enwau siblingiaid plentyn D yn parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant oherwydd problemau parhaus yn ymwneud â rhianta ei fam. Arhoson nhw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant tan fis Medi 2017, o dan y Tîm Anableddau Plant, pan gafodd eu henwau eu dileu.

Parhaodd Plentyn D i gael mewnbwn gan Therapydd Galwedigaethol a chafodd ofal seibiant dros nos hefyd. Nodwyd amodau cartref gwael eto yn ystod 2017 ond bu gwelliant ym mis Ionawr 2018 a oedd yn amlygu'r amrywiad mewn amodau cartref.

Roedd iechyd plentyn D yn cael ei adolygu’n barhaus gan Bediatregydd Cymunedol ac ni nodwyd unrhyw broblemau; nodwyd ei fod yn gwneud yn dda, ac yn gwneud cynnydd yn amgylchedd yr ysgol.

Ym mis Ionawr 2021, mynegwyd pryderon gan y lleoliad seibiant ynghylch rheoli meddyginiaeth plentyn D. Wrth asesu, nodwyd amodau cyfnewidiol yn y cartref eto a darparwyd cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar y pwynt hwn, nodwyd bod gwelliannau tymor byr wedi'u gwneud; fodd bynnag, nid oedd y teulu'n gallu cynnal y newidiadau hyn yn hir. Ar 8 Mehefin 2021, rhoddwyd enwau plentyn D ac enwau ei siblingiaid ar y Gofrestr Amddiffyn Plant eto o dan y categori esgeulustod. Rhoddwyd cymorth wyneb yn wyneb ar yr adeg hon i gael mynediad at grwpiau craidd oherwydd COVID-19. Roedd amodau’r cartref wedi gwella, a dywedodd ei nain a’i daid eu bod yn mynd ar wyliau ac y byddai mam plentyn D yn gofalu amdano yn ystod y cyfnod hwn. Trefnwyd mesurau diogelu ychwanegol a chymorth i'r fam ar yr adeg hon, a oedd yn cynnwys mwy o gymorth i deuluoedd a darparwyd lleoedd mewn clybiau gwyliau ysgol.

Ar 5 Awst 2021, aeth plentyn D am belydr-x ar ei gluniau, pryd y darganfuwyd ei fod yn rhwym. O ganlyniad i hyn, hysbyswyd Meddyg Teulu (GP) plentyn D er mwyn cael presgripsiwn am feddyginiaeth briodol ar gyfer y rhwymedd. Ar 13 Awst 2021, cynhaliwyd e-ymgynghoriad gyda’r feddygfa am bresgripsiwn moddion gweithio. Trefnwyd i gasglu'r presgripsiwn o'r feddygfa; fodd bynnag, ni chafodd ei gasglu.

Cynhaliodd y Gweithiwr Cymdeithasol ymweliad cartref dirybudd ar 17 Awst 2021 tra’r oedd Nain a Thaid plentyn D ar wyliau. Nodwyd bod plentyn D yn sâl ac yn gythryblus, a’i fod wedi chwydu drwy gydol y noson flaenorol. Dywedwyd bod plentyn D wedi agor ei goluddion fel arfer yn ystod yr ychydig ddyddiau cyn hynny, ond roedd yr ysgarthion yr oedd plentyn D wedi ei basio y diwrnod cynt wedi bod yn fach ac yn galetach nag arfer. Rhoddwyd meddyginiaeth i blentyn D ar gyfer rhwymedd a lleddfu poen a chysylltwyd â'r meddyg teulu. Dywedwyd hefyd y byddai aelod o'r teulu yn casglu presgripsiwn gan y meddyg teulu. Rhaid ystyried bod ei Nain a’i Daid wedi datgan yn flaenorol fod mam plentyn D yn cael trafferth gofalu amdano, ond eto ni chwblhawyd unrhyw asesiadau’n ffurfiol i asesu hyn.

Ar 18 Awst 2021, canfuwyd plentyn D yn anymatebol yn y gwely gan ei fam. Galwyd parafeddygon ac unwaith eto, nodwyd amodau cartref gwael. Yn anffodus, nododd y parafeddygon amser marwolaeth yn y cartref, gan nad oedd unrhyw beth y gellid ei wneud i helpu plentyn D.

**Adolygu’r Cyfnod Amser**

Cytunodd y panel mai’r cyfnod amser ar gyfer yr adolygiad fyddai rhwng 1 Awst 2020 a 18 Awst 2021.

Disgrifiwyd Plentyn D fel person ifanc hapus a phoblogaidd a oedd yn goleuo ystafell gyda'i wên. Roedd yn gymeriad arbennig, a disgrifiwyd ei wên fel un heintus ac annwyl gan bawb a oedd yn ei adnabod. Roedd yn hapus iawn yn gwylio rygbi a rasio ceir mewn stadia neu ar y teledu.

## Ymarfer a dysgu sefydliadol

Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, rydym yn ddiolchgar am y cronolegau a gyflwynwyd gan asiantaethau, a'r wybodaeth a'r amser a roddwyd gan aelodau'r teulu. Hoffem ddiolch yn arbennig i'r gweithwyr proffesiynol a fynychodd y digwyddiad dysgu.

Nodwyd pedair thema gyffredinol sydd wedi llywio'r pwyntiau dysgu o'r adolygiad hwn.

- Dealltwriaeth o brofiadau bywyd plentyn D
- Amodau cartref gwael ac esgeulustod rheolaidd
- Asesiadau risg ar ddealltwriaeth gofalwyr o anghenion gofal plentyn D
- Oedi wrth gyflenwi offer arbenigol

Roedd yr adolygiad a gwblhawyd yn ystyried systemau ac arferion ar ôl mis Mawrth 2020, felly mae angen ystyried a oedd unrhyw effaith oherwydd pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi ceisio deall cymaint â phosibl sut yr effeithiodd amgylchiadau'r pandemig byd-eang ar blentyn D, ei deulu, ac ymatebion gweithwyr proffesiynol bryd hynny.

**Thema 1- Dealltwriaeth o brofiadau bywyd plentyn D**

Wrth wraidd amddiffyn plant, mae'r angen i ddeall yn gynhwysfawr sut beth yw bywyd i'r plentyn unigol. Gall unrhyw blentyn sy'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso fod yn amharod neu fethu â siarad am ei brofiadau. Mae angen i ymarferwyr fynd ati i glywed yr hyn sydd gan y plentyn i'w ddweud neu ei gyfathrebu, arsylwi ar ei ymddygiad mewn gwahanol gyd-destunau, a chlywed yr hyn y mae aelodau o'r teulu/ oedolion/ gofalwyr a gweithwyr proffesiynol arwyddocaol wedi'i ddweud am y plentyn. Mae angen sgiliau ac arbenigedd rhagorol ar ymarferwyr i ddatblygu perthynas ymddiriedus gyda'r plentyn, i ofyn y cwestiynau cywir ac i fyfyrio'n feirniadol ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud neu'n ei fynegi trwy ei eiriau, ei weithredoedd neu ei ymddygiad. Mae ymarfer effeithiol hefyd yn gofyn am ddeall yr effaith y gall hanes y rhai sy'n ymwneud â'u bywyd ei chael ar brofiadau'r plentyn.

Roedd plentyn D yn ddi-eiriau yn bennaf oherwydd ei anghenion cymhleth. Fodd bynnag, ni ddylai cymhlethdodau gyda lleferydd ac iaith fod yn rhwystr i ddatblygu dealltwriaeth o brofiad bywyd plentyn. Mae'r Tîm Anableddau Plant o fewn yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn rhan o'r Strwythur Gwasanaethau Oedolion. Bodlonwyd anghenion corfforol yn ymwneud ag anabledd plentyn D gyda mewnbwn proffesiynol gan wasanaethau megis Therapi Galwedigaethol. Fodd bynnag, mae diffyg ffocws ar brofiadau bywyd plentyn D fel plentyn ag anableddau yn byw mewn cartref lle bu esgeulustod cronnol dros nifer o flynyddoedd..

**Pwynt dysgu 1:**
Dylai trafodaethau aml-asiantaeth fod yn bwrpasol ar gyfer plentyn ag anableddau ac ystyried sut mae hynny'n effeithio ar blant unigol a'u teuluoedd.

Cafodd plentyn D a'i deulu fewnbwn sylweddol gan asiantaethau oherwydd y broses ddiogelu a chynhaliwyd cynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd rheolaidd. Fodd bynnag, yn ystod y broses hon, ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth i'r ffaith fod gan blentyn D anghenion cymhleth. O fewn yr Awdurdod Lleol perthnasol, nodir bod y Tîm Plant ag Anableddau wedi'i leoli o fewn Gwasanaethau Oedolion. Felly, dylid ystyried asesu a fyddai'r gofal wedi bod yn wahanol pe bai'r tîm yn rhan o'r Gwasanaethau Plant. O fewn cartref plentyn D, nodir hefyd bod dau sibling yn byw yn yr eiddo, ond prin yw'r wybodaeth am brofiadau bywyd unrhyw un o'r plant hyn.

**Argymhelliad 1:**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu canllawiau ymarfer ar brofiadau bywyd plant ag anableddau i gynorthwyo dealltwriaeth ymarferwyr, i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yn weithredol ac i gefnogi camau gweithredu effeithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 2:** Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried adolygu'r cyfrifoldeb strategol am y Tîm Plant ag Anableddau o fewn cyfadran yr awdurdod. Gallai'r ystyriaeth hon gynnwys sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth.

**Ymarfer da:**
Roedd lleoliad addysgol plentyn D yn nodi pan yr oedd yn ymddangos ei fod mewn poen, ac yn codi'r mater gyda'r nain a'r taid a'r fam, a holi beth oedd yr achos.

**Pwynt dysgu 2:**
Canfuwyd bod plentyn D mewn poen oherwydd nad oedd presgripsiynau rheolaidd yn cael eu casglu o'r fferyllfa. Nid oedd y Fferyllydd yn ymwybodol bod enw plentyn D wedi'i roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant i godi pryderon yn briodol.

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid gwahodd meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol eraill i Gynadleddau Amddiffyn Plant. Dylid dosbarthu copi o'r cynllun amlinellol a chrynodeb o'r penderfyniadau a wnaed yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant i bawb a wahoddwyd i'r gynhadledd, p'un a ydynt wedi mynychu ai peidio. Byddai fferyllwyr yn dod o dan y categori o weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol eraill, a chan fod ganddynt gysylltiad rheolaidd â phlant a'u teuluoedd, ni ddylid eu heithrio o'r gwahoddiadau hyn.

**Argymhelliad 3:**
Y Bwrdd Diogelu i archwilio ac ystyried a ddylid rhannu gwybodaeth oddi wrth feddygon teulu gyda fferyllwyr ynghylch plant sy'n destun gweithdrefnau diogelu i fonitro a rhannu gwybodaeth fel y bo'n briodol.

**Thema 2 - Amodau cartref gwael ac esgeulustod rheolaidd**

Gall plant sy'n profi esgeulustod ddioddef effeithiau tymor byr a thymor hir. Gall y rhain gynnwys problemau gyda datblygiad yr ymennydd, ymddygiadau cymryd risg, anhawster i ffurfio perthynas a bod â siawns uwch o ddioddef iechyd meddwl gwael. Er y gall unrhyw blentyn ddioddef esgeulustod, gall rhai fod mewn mwy o berygl nag eraill. Mae'r plant hyn yn cynnwys y rhai sy'n cael eu geni'n gynamserol, sydd ag anabledd, sydd ag anghenion iechyd cymhleth, y rhai mewn gofal a'r rhai sy'n ceisio lloches.

Drwy gydol yr amser y bu gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â phlentyn D, gwelwyd patrwm clir o welliannau yn cael eu gwneud i'r cartref ac yna dirywiad yn cael eu nodi o fewn cyfnodau byr o amser. Roedd gweithwyr proffesiynol yn nodi gwelliannau pan oedd pwysau allanol yn cael ei ddefnyddio, a phan oedd mam a nain a taid yn gweithio gyda'i gilydd. Gallai effaith gronnol mynd i'r afael â chyfres o bethau bach fod wedi gwella llesiant plentyn D yn sylweddol.

Drwy gydol yr adolygiad, nodwyd hefyd bod cyflwr y cartref yn bryder pellach i blentyn ag anghenion ychwanegol, gan nad yw'n glir sut roedd plentyn D yn symud o gwmpas y cartref mewn cadair olwyn. Mae anghenion plentyn anabl yn cynyddu, ac mae angen offer ychwanegol i sicrhau ei fod yn cael gofal digonol. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei ystyried mewn unrhyw asesiadau cartref a gynhaliwyd.

Nodwyd bod amodau'r cartref yn hynod o anniben, a gwaethygwyd hyn eto oherwydd faint o offer roedd ei angen i ofalu am blentyn D. Yn ystod y cyfnod hwn, dylid bod wedi gofyn i wasanaethau allanol fel y gwasanaeth tân wneud asesiad risg cartref i amlygu risgiau pellach sy'n gysylltiedig â'r annibendod.

**Pwynt dysgu 3:**
Gall ymarferwyr wynebu heriau sylweddol wrth benderfynu p'un a yw plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, ac mae un o'r heriau hyn yn cynnwys disgwyliadau sefydliadol o ran trothwyon (Gweithdrefn Diogelu Cymru, 2019). Yn ogystal â'r rhain, gall trothwyon personol amrywio hefyd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y gwahaniaethau hyn yn cael eu trafod mewn fforwm aml-asiantaeth i sicrhau bod disgwyliadau a ffiniau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer gweithwyr proffesiynol a'r teuluoedd dan sylw.

Dylai gweithwyr proffesiynol fod wedi cydnabod effaith gronnol esgeulustod cyson a welwyd gan lawer o weithwyr proffesiynol. Pe bai hyn wedi'i nodi a'i drin, byddai wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant emosiynol plentyn D. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Plentyn D mewn mwy o berygl o gael ei esgeuluso na rhai plant eraill oherwydd iddo gael ei eni'n gynamserol, a bod ganddo anabledd ac anghenion cymhleth (NSPCC, 2023)

**Argymhelliad 4:**
Y Bwrdd Diogelu i ystyried ychwanegu trothwy cyflwr cartrefi at y canllawiau esgeuluso rhanbarthol presennol. Dylid ystyried ffotograffau o amgylcheddau cartref er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol a theuluoedd i nodi a galluogi newid, fel y bo'n briodol. Gellid defnyddio'r rhain hefyd i drafod safonau derbyniol. Dylid ystyried dull aml-asiantaeth o ymdrin ag amgylchedd anniben ac ystyried asiantaethau fel y gwasanaeth tân ar gyfer addysg ynghylch risg.

**<u>Thema 3 - Asesiadau risg ar ddealltwriaeth gofalwyr o anghenion gofal plentyn D</u>**

Ar adeg marwolaeth plentyn D, roedd y nain a'r taid a oedd â'r prif gyfrifoldeb rhieni amdano i ffwrdd ar wyliau. Roedd mam naturiol plentyn D, a oedd â rhyw fath o gyfrifoldeb rhiant, yn gofalu amdano ar adeg ei farwolaeth. Roedd gan blentyn D anghenion gofal cymhleth, roedd yn defnyddio cadair olwyn, ac roedd angen gofal 24

awr. Roedd angen rhoi meddyginiaeth i blentyn D hefyd ac roedd angen cwblhau tasgau fel cael meddyginiaeth o fferyllfa. Yn ogystal, roedd siblinigiaid Plentyn D angen gofal rhiant. Dylid fod wedi asesu barn y nain a'r taid ynghylch gallu'r fam i ofalu am Blentyn D, yn ogystal â gallu'r fam i ddarparu gofal llawn ar gyfer holl anghenion Plentyn D.

**Pwynt dysgu 4:**
Ni chynhaliwyd asesiadau risg i ganfod a oedd mam plentyn D yn deall ei anghenion yn llawn ac a oedd hi'n gallu darparu gofal priodol ac effeithiol iddo. Roedd y nain a'r taid wedi mynegi pryder yn flaenorol ynghylch gallu'r fam i ddiwallu anghenion plentyn D, ond ni chwblhawyd unrhyw asesiadau ffurfiol gan wasanaethau i gael tystiolaeth o hyn.

**Ymarfer da:**
Roedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod y gallai mam plentyn D ei chael hi'n anodd darparu'r lefel o ofal oedd ei angen arno ef a'i siblingiaid tra oedd y nain a'r taid i ffwrdd. Roedd cymorth ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer yr amser hwn gydag aelodau'r teulu yn darparu cymorth, trefnu sesiynau ychwanegol yng nghynllun chwarae'r ysgol, a'r Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig yn mynychu'r cartref.

**Argymhelliad 5:**
Pan fo plentyn yn byw gyda rhiant/gofalwr nad yw bellach yn dal y prif gyfrifoldeb fel rhiant, dylai'r Gwasanaethau Plant gwblhau asesiadau risg i'r rhiant/gofalwr i brofi cymhwysedd yn ymwneud ag anghenion gofal y plentyn unigol.

**<u>Thema 4 – Offer arbenigol</u>**

Fel y trafodwyd yn flaenorol, roedd gan blentyn D anghenion gofal a oedd angen offer arbenigol. Roedd angen asesu'r offer hwn yn rheolaidd oherwydd fod y plentyn D yn tyfu a'i anghenion yn newid. Roedd y nain a'r taid hefyd yn heneiddio ac yn ei chael yn fwyfwy anodd rheoli plentyn D yn annibynnol oherwydd ei fod yn tyfu. Archebwyd cyfarpar wedi'i ddiweddaru. Fodd bynnag, bu oedi i gyflenwi offer ym mhob sector oherwydd canlyniadau pandemig COVID-19.

**Pwynt dysgu 5:**
Dylid bod wedi cynnal asesiad risg o'r oedi mewn cyflenwi cyfarpar, a chodi'r lefel rhybudd os y gwelwyd fod risg i ofal plentyn D.

Nodwyd a darparwyd offer arbenigol ychwanegol i'r teulu megis slingiau cawod a lifftiau. Fodd bynnag, ni chafodd y rhain eu defnyddio yn y cyfnod cyn marwolaeth plentyn D gan fod plentyn D yn dangos trallod wrth eu defnyddio. Roedd yr eitemau hyn hefyd yn golygu llai o le yn y tŷ, gan eu bod yn cael eu cadw yno er nad oeddent yn cael eu defnyddio, ac roeddent yn cymryd cryn dipyn o le mewn amgylchedd a oedd eisoes yn anniben.

**Argymhelliad 6:**
Dylai asesiadau risg gael eu cwblhau gan yr Awdurdod Lleol mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol eraill i gael tystiolaeth ac i alluogi codi lefel y rhybudd ynghylch gwasanaeth gwael gan gwmnïau allanol pan fo'r amser disgwyl am offer yn

fwy na'r terfynau amser disgwyliedig. Dylid ystyried yr effaith ar y plentyn neu berson ifanc o fewn hyn.

**Pwynt dysgu 6:**
Ni chynhaliwyd asesiadau rheolaidd i wybod p'un a oedd offer yn cael ei ddefnyddio gan y teulu, a'r rhesymau dros beidio â'i ddefnyddio, ac yna ei symud oddi yno os oedd hynny'n briodol.

**Argymhelliad 7:**
Dylid cynnal asesiadau rheolaidd o'r offer sydd ei angen ar unigolion a dylai'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau partneriaeth fynd ag offer di-angen oddi yno. Dylai'r prosesau codi lefel rhybudd neu uwchgyfeirio fod yn glir i bob aelod o staff ar draws pob sector er mwyn gwella anghenion gofal y plentyn.

**Effaith pandemig COVID-19**


Pan ddigwyddodd pandemig Covid 19 ym mis Mawrth 2020, roedd yn rhaid i sefydliadau ymateb yn gyson ac addasu i ganllawiau newidiol y llywodraeth er mwyn sicrhau parhad darpariaeth gwasanaeth. Arhosodd dyletswyddau diogelu sefydliadau partner statudol heb eu newid yn ystod yr achosion o Covid 19. Sefydlodd Awdurdodau Lleol a phartneriaid diogelu brosesau clir ar gyfer asesu risg, blaenoriaethu achosion a gweithredu arferion covid-saff.

Yng Ngwent, cyhoeddodd Penaethiaid Gwasanaethau Plant ganllawiau rhanbarthol yn nodi'r trefniadau gweithredol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ymarferol, golygai hyn fod ymweliadau wyneb yn wyneb yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer plant lle'r oedd pryderon diogelu, neu'r rhai yr oedd angen ymweliadau statudol arnynt o ganlyniad i roi eu henw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, neu eu bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal, yn amodol ar asesiad risg. Yn achos Plentyn D, roedd hyn yn golygu bod cyfnod cyn i'w enw gael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn 2021, pan oedd ymweliadau a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir gan amlaf.

**Ymarfer da:**
Roedd yr ysgol yn cadw cysylltiad rheolaidd â'r teulu a rhoddwyd cynnig i blentyn D fynychu lleoliad hwb yn ystod cyfnodau pan oedd yr ysgol ar gau.

Darparodd yr Awdurdod Lleol gefnogaeth yn y cartref i alluogi ei nain a'i daid i gael mynediad at grwpiau craidd rhithwir.

| Gwella Systemau ac Ymarfer |
|---|
| **Argymhelliad 1**:<br>Dylai’r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu canllawiau ymarfer ar brofiadau bywyd plant ag anableddau i gynorthwyo dealltwriaeth ymarferwyr, i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yn weithredol ac i gefnogi camau gweithredu effeithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc.<br>**Argymhelliad 2**:<br>Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried adolygu'r cyfrifoldeb strategol am y Tîm Plant ag Anableddau o fewn cyfadran yr awdurdod. Gallai'r ystyriaeth hon gynnwys sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth.<br>**Argymhelliad 3**:<br>Y Bwrdd Diogelu i archwilio ac ystyried a ddylid rhannu gwybodaeth oddi wrth feddygon teulu gyda fferyllwyr ynghylch plant sy’n destun gweithdrefnau diogelu i fonitro a rhannu gwybodaeth fel y bo’n briodol.<br>**Argymhelliad 4**:<br>Y Bwrdd Diogelu i ystyried ychwanegu trothwy cyflwr cartrefi at y canllawiau esgeuluso rhanbarthol presennol. Dylid ystyried ffotograffau o amgylcheddau cartref er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol a theuluoedd i nodi a galluogi newid, fel y bo'n briodol. Gellid defnyddio'r rhain hefyd i drafod safonau derbyniol. Dylid ystyried dull aml-asiantaeth o ymdrin ag amgylchedd anniben ac ystyried asiantaethau fel y gwasanaeth tân ar gyfer addysg ynghylch risg.<br>**Argymhelliad 5**:<br>Pan fo plentyn yn byw gyda rhiant/gofalwr nad yw bellach yn dal y prif gyfrifoldeb fel rhiant, dylai'r Gwasanaethau Plant gwblhau asesiadau risg i’r rhiant/gofalwr i brofi cymhwysedd yn ymwneud ag anghenion gofal y plentyn unigol.<br>**Argymhelliad 6**:<br>Dylai asesiadau risg gael eu cwblhau gan yr Awdurdod Lleol mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol eraill i gael tystiolaeth ac i alluogi codi lefel y rhybudd ynghylch gwasanaeth gwael gan gwmnïau allanol pan fo'r amser disgwyl am offer yn fwy na'r terfynau amser disgwyliedig. Dylid ystyried yr effaith ar y plentyn neu berson ifanc o fewn hyn.<br>**Argymhelliad 7**:<br>Dylid cynnal asesiadau rheolaidd o'r offer sydd ei angen ar unigolion a dylai'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau partneriaeth fynd ag offer di-angen oddi yno. Dylai’r prosesau codi lefel rhybudd neu uwchgyfeirio fod yn glir i bob aelod o staff ar draws pob sector er mwyn gwella anghenion gofal y plentyn. |

| Datganiad gan yr adolygwyr | | | |
|---|---|---|---|
| **ADOLYGYDD 1** | | **ADOLYGYDD 2** | |
| **Datganiad annibyniaeth o’r achos**<br>*Datganiad cymhwyster Sicrwydd Ansawdd* | | **Datganiad annibyniaeth o’r achos**<br>*Datganiad cymhwyster Sicrwydd Ansawdd* | |
| Gwnaf y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn: -<br><br>• Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd(wyr) dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl. | | Gwnaf y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn: -<br><br>• Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na’r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd(wyr) dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl | |
| **Adolygydd 1**<br>*(Llofnod)* |  | **Adolygydd 2**<br>*(Llofnod)* |  |
| **Enw**<br>*(Printiwch)* | Eleanor Edwards | **Enw**<br>*(Printiwch)* | Susan Goodard |
| **Dyddiad** | 26.02.2024 | **Dyddiad** | 26.02.2024 |
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)*<br><br>**Enw**<br>Sally Jenkins<br><br>**Dyddiad** 26.02.2024 | | | |

Dywedodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru wrth Lywodraeth Cymru ar 10 Ionawr 2022 ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig mewn perthynas â phlentyn.

**Adolygydd**: Susan Goddard, Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cymdeithasol.
**Adolygydd**: Eleanor Edwards, Uwch Nyrs ar gyfer Addysg a Dysgu Diogelu, BIPAB.
**Cadeirydd y Panel**: Sally Jenkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Seicoleg Addysg
- Heddlu Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Cyfarfu'r panel i adolygu'r wybodaeth aml-asiantaeth ac i ddarparu dadansoddiad i gefnogi datblygiad yr adroddiad.

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ar 7 Gorffennaf 2023 ac roedd yr asiantaethau canlynol yn bresennol:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Heddlu Gwent
- Addysg

Hysbyswyd aelodau perthnasol o'r teulu bod yr adolygiad yn cael ei gynnal, a chynhaliwyd cyfarfod gyda'r Adolygwyr cyn y digwyddiad.

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad y derbyniwyd y wybodaeth ………………………………..

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd y BLIDP …………………………

Dyddiad a gylchwyd i arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol …………………….

| Asiantaethau | Ie | Na | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGIC | | | |
| Cwnstabliaeth EF | | | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi | | | |

**Atodiad 1**

## Cylch Gorchwyl

## ADOLYGIAD YMARFER PLANT ESTYNEDIG MEWN PERTHYNAS Â BWRDD DIOGELU PLANT DE DDWYRAIN CYMRU 1/2021

### Tasgau craidd

- Pennu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd.
- Archwilio gwaith rhyng-asiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu.
- Pennu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Cymryd i ystyriaeth unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau angenrheidiol.

### Tasgau penodol i'r Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd(wyr) i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â chanllawiau ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau uniongyrchol a gymerwyd eisoes.
- Cynhyrchu llinell amser gyfun, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau (cwmpas 1 Awst 2020 i 18 Awst 2021)
- Cynllunio gyda'r adolygydd(wyr) ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r rhai sy'n mynychu a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd(wyr) drefniadau cyswllt gyda'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.

- Derbyn ac ystyried yr adroddiad adolygiad ymarfer plant drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl yn cael ei fodloni, bod y rhagdybiaethau cychwynnol wedi'u hystyried a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer ystyriaeth a chytundeb.

- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant**

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i'r Bwrdd eu hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

- Y Panel Adolygu i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.

- Bwrdd yn anfon at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn cymeradwyo a chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu aml-asiantaeth gan yr Is-Grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.

- Cynllunio i'w gyhoeddi ar wefan y Bwrdd.

- Cytuno i'w ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.

- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i ddiddordeb y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.